Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Teleri Llwyd-Jones
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn
Ffordd Dinbych
Rhuthun
LL15 1NT

22/07/2025

Annwyl Teleri Llwyd-Jones

**Ymweliad interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr a staff yr ysgol yn gwerthuso canlyniadau profion cenedlaethol bob blwyddyn, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ym medrau rhifedd disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i deilwra'r dysgu a'r ddarpariaeth sy'n cefnogi medrau datrys problemau a rhesymu rhifedd disgyblion yn effeithiol.
- Trwy raglen datblygiad proffesiynol parhaus, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i staff ddatblygu eu hymagweddau at addysgu mathemateg a datrys problemau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cynllun yn llwyddiannus i gynorthwyo athrawon i gynllunio'n systematig ac yn hyderus ar gyfer datblygu medrau mathemateg disgyblion.
- Mae staff wedi gweithio'n effeithiol i gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problemau ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae hyn yn galluogi disgyblion i greu cysylltiadau pwrpasol rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi mathemateg a'r rhifedd o fewn eu testunau.

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn defnyddio'u dealltwriaeth gynnar o rif yn briodol mewn tasgau cyfeiriedig ac yn eu chwarae dychmygus. Maent yn dechrau creu cysylltiadau o fewn eu gwaith rhifedd, sy'n cefnogi eu gallu i ddatrys problemau yn effeithiol. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn gymwys am eu dysgu a sut maent yn cymhwyso'u gwybodaeth am rifedd a'u medrau datrys problemau ar draws y meysydd dysgu.

## Mireinio ac ymgorffori ymagweddau at addysgu ac asesu sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion a rhannu'r arfer dda hon ar draws yr ysgol

- Mae'r pennaeth wedi creu gweledigaeth glir ar gyfer gwella polisi a gweithdrefnau asesu'r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio system asesu gadarn i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn effeithiol o ran nodi disgyblion unigol ag anghenion ychwanegol a darparu ymyriadau pwrpasol i gefnogi datblygiad eu medrau.
- Mae athrawon yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd unigol disgyblion ym meysydd allweddol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Maent yn defnyddio'u canfyddiadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn bwrpasol.
- Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i rannu arfer orau, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu. Maent yn defnyddio'u canfyddiadau o deithiau dysgu a sesiynau craffu ar lyfrau i nodi sut beth yw addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a pha agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae hyn wedi arwain at wella defnydd athrawon o holi penagored a seibiannau, sy'n cefnogi datblygiad medrau meddwl disgyblion yn effeithiol.
- Mae staff yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol rheolaidd, gan gynnwys gweithio gydag athrawon o ysgolion eraill. Maent wedi rhannu arfer orau mewn meysydd allweddol o'u harfer broffesiynol, gan gynnwys gwella adborth athrawon yn ystod gwersi i gynorthwyo disgyblion i wybod y camau nesaf yn eu dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/borthyn-v-c-primary-school-cy/](https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/borthyn-v-c-primary-school-cy/)

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol